**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Llofnodwyr Cyfamod y Lluoedd Arfog

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Llun, 8 Tachwedd 2021 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd W G Lewis (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Sefydliadau Cynrychioliadol**

| | |
|---|---|
| Alyx Baharie | SCVS |
| Moawia Bin-Sufya | Care after Combat |
| Pat Dunmore | Citizens Advice Bureau |
| Steve Fry | Dirprwy Raglaw |
| Kirsty Gronow | The Poppy factory |
| Julian North | Help for Heroes |
| Antony Rabey | Aartic Training |
| Katie Ruddock | Rygbi'r Gweilch |
| Sandy Shaw | Clwb Cyn-filwyr |
| Stephen Sullivan | Hafal |
| Yasmin Todd | Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol – Plant y Lluoedd Arfog (Gorllewin Cymru) |
| Neil Tomlin | Cronfa Les yr Awyrlu Brenhinol |
| Victoria Williams | Cyn-filwyr GIG Cymru |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Spencer Martin | Cydlynydd Perthnasoedd y Sector Gwirfoddol |
| Natalie McCombe | Cydlynydd Ardal Leol |
| Emma Thomas | Digwyddiadau Arbennig |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Davies, Louise Fleet, Sq Ldr Phil Flower a/ac Morrell

---

## 114 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Dim.

## 115 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y panel a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2021 fel cofnod cywir.

**116 Prosiect Boots on the Ground.**

Rhoddodd Melvin Watts drosolwg byr o'r cynllun yr oedd yn ymwneud ag ef sy'n ceisio helpu cyn-filwyr, yn enwedig y rheini â phroblemau iechyd meddwl. Amlinellodd ei fod yn cwmpasu ardal De-orllewin Lloegr a Chymru gyfan.

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn:
Boots on the Ground - Alabare

**117 Prosiect Cyfamod y Lluoedd Arfog Rhanbarthol.**

Nid oedd Bethan Dennedy yn bresennol yn y cyfarfod.

Byddai diweddariadau'n cael eu darparu yn y cyfarfod nesaf.

**118 Diweddariadau gan Y Weinyddiaeth Amddiffyn.**

Dywedodd y Capten Huw Williams fod Sgwadron 223 wedi cysylltu â'r Gweilch ar gyfer y gêm ddiweddar yn erbyn Munster. Trefnwyd y digwyddiad i hyrwyddo'r ffaith bod yr uned a'r broses recriwtio'n gweithredu eto ac roedd yr arddangosfeydd a'r ymgysylltiad â'r dorf wedi bod yn llwyddiannus.

Cyfeiriodd at y cysylltiadau a ddatblygwyd yn ddiweddar gyda Choleg Llanymddyfri a Choleg Sir Gâr a'r gwaith ymgysylltu a wnaed gyda Chyngor Mwslimiaid Cymru.

Dywedodd, yn anffodus eto oherwydd pandemig COVID, fod cyfranogiad mewn digwyddiadau i goffáu Diwrnod y Cadoediad a Sul y Cofio yn llawer llai, ond amlinellodd y byddai cadetiaid o Abertawe a Chastell-nedd yn cymryd rhan mewn gorymdaith ym Mhort Talbot ddydd Sul.

Amlinellodd fod cadetiaid yn ôl yn hyfforddi wyneb yn wyneb, ond manylodd ar rai materion yn ymwneud â COVID sy'n effeithio ar hyfforddiant a datblygiad.

**119 Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe - Fforwm y Lluoedd Arfog.**

Amlinellodd Victoria Williams ei bod wedi derbyn 16 o atgyfeiriadau i'w gwasanaeth, a bod ganddi 18 o bobl ar y rhestr aros.

Nododd fod cyfarfod y rhwydwaith Clinigol wedi'i gynnal yr wythnos diwethaf a bod llawer o bobl wedi dod iddo.

Cyfeiriodd at wahanol ffrydiau gwaith a phrosiectau eraill sy'n cael eu cynnal.

Oherwydd ymddiheuriadau gan gynrychiolwyr eraill y Bwrdd Iechyd, byddai diweddariad ysgrifenedig yn cael ei ddosbarthu ar ôl y cyfarfod.

**120 Cefnogi Disgyblion o Deuluoedd Gwasanaeth.**

Adroddodd Yasmin Todd ar lafar gan ddiweddaru'r panel ar faterion amrywiol yn ymwneud â mentrau a phrosiectau sydd â'r nod o helpu plant y lluoedd arfog, gan gynnwys y cynllun newydd sy'n cael ei ddatblygu gydag SSCE Cymru (Cynorthwyo Plant Milwyr yn Ysgolion Cymru) i ddatblygu gwobrau aur, arian ac efydd i ysgolion. Cyfeiriodd hefyd at y cyllid gan Lywodraeth Cymru a fydd yn cael ei ddefnyddio yn Abertawe, yn enwedig y cynllun "milwyr bach".

Nododd y byddai diweddariad ysgrifenedig llawn yn cael ei ddosbarthu ar ôl y cyfarfod.

**121 Diweddariad gan Aelodau'r Panel.**

Rygbi'r Gweilch

Amlinellodd Katie Ruddock fod y cynllun 'Yn y Garfan' bellach ar waith yn ei ail leoliad yn Meadowview, yn ogystal â'r un yn Llansawel.

Amlinellodd nad oedd lefelau cyfranogiad yn wych, ond cynhaliwyd trafodaeth ynghylch effaith Taliad Annibyniaeth Personol a chyn-filwyr yn cymryd rhan yn y gweithgareddau. Amlinellwyd bod cyswllt yr Adran Gwaith a Phensiynau cyn-filwyr lleol wedi nodi mewn fforwm arall na fyddai cymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath yn effeithio ar fudd-daliadau. Gofynnir am eglurder gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a byddai gwybodaeth yn cael ei hadrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

Cyngor Abertawe

Dywedodd y Cynghorydd Wendy Lewis fod Arweinydd y Cyngor wedi cyhoeddi a sefydlu cronfa newydd yn ddiweddar i gefnogi a chynorthwyo grwpiau o gyn-filwyr gyda chymorth ariannol. Byddai'r meini prawf manwl ar gyfer ceisiadau a ffurflenni cais yn cael eu cwblhau'n fuan a'u dosbarthu i holl aelodau'r Panel.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.35 pm

**Cadeirydd**